**Gwyliedydd**

**RHIF 197**

**HYDREF - TACHWEDD 2015**

## Eicon y Drindod Sanctaidd gan Sant Andrei Rwblief

gan y Tad Deiniol

Ar glawr rhifyn mis Awst y *Gwyliedydd*, gwelir efelychiad hyfryd gan eiconograffydd cyfoes o un o eiconau mwyaf adnabyddus yr eiconograffydd canoloesol Rwsiaidd, Sant Andrei Rwblief, eicon sy'n seiliedig ar un o hanesion rhyfeddaf buchedd y Patriarch Abraham.

Mae'r stori i'w gweld yn Genesis 18:1-16, ac mae'n amlwg bod rhai cyfieithwyr cyfoes wedi teimlo mai dim ond wrth addasu testun gwreiddiol y stori y gellir cychwyn gwneud synnwyr ohoni. Mae'r cyfieithiadau Cymraeg a Saesneg mwy traddodiadol ar y llaw arall, wrth gadw'n glòs at y gwreiddiol, wedi cadw'r drws yn fwy agored i'r posibilrwydd mai dirgelwch hynod sydd yma ac mai stori ryfeddol yn hytrach na stori od yw hon.

Mae perthynas meidrolion â Dirgelwch Dwyfol yn cael ei chyfrif yn nodwedd o feddylfryd y Traddodiad Uniongred Dwyreiniol, ac mae hyn yn ei dro ynghlwm wrth arwyddocâd allweddol y Dirgeledigaethau fel amlygiad a datganiad o Ddirgelwch Dwyfol a'r gwahoddiad graslon inni gyfranogi o fywyd y Drindod Sanctaidd Ei Hun.

Os mai rhyfeddol yn wir yw'r stori hon o fywyd Abraham, ac os yw'n cyffwrdd â rhyw ddirgelwch dwyfol, gellir disgwyl iddi godi cwestiynau diwinyddol. Ond cwestiwn llawn mor ddilys hefyd yw faint o oleuni mae eicon Sant Andrei Rwblief yn ei daflu ar yr hanes a'r dirgelwch sydd o bosib yn y stori. Pam, yn wir, y dewisodd Sant Andrei Rwblief ddylunio'r stori hon? Yn wir, gellir gofyn hyd yn oed a yw'r eiconograffydd yn llwyddo i ddarlunio'r hanes heb sôn am daflu goleuni arni, gan fod yr eicon yn hepgor llawer o fanylion 'hanesyddol' megis pabell Abraham, y teisennau, y llanc yn paratoi'r anifail yn ymborth i'r Ymwelwyr a hyd yn oed Abraham a Sara eu hunain.

Pwy felly oedd Sant Andrei Rwblief? Yn y bedwaredd ganrif ar ddeg sefydlodd y sant Rwsiaidd Sergei o Radonezh gymuned fynachaidd yn Enw'r Drindod Sanctaidd *'fel y byddai i'r gwŷr hyn drwy ddwysfyfyrio ar y Drindod Sanctaidd allu gorchfygu'r casineb sy'n rhannu'r byd'*. Ddwy flynedd ar bymtheg wedi ei farwolaeth, comisiynodd Sant Nicon ei olynydd, un o'r mynaich - Andrei (Rwblief) - i ddylunio eicon o'r Drindod Sanctaidd.

Ar y naill law, roedd hyn yn gais hawdd i'w ddeall o ystyried rôl flaenllaw eiconau yn nhraddodiad yr Eglwys Uniongred, a bod athrawiaeth y Drindod yn un o hanfodion y ffydd Gristionogol. Ar y llaw arall, roedd yn dipyn o her o ystyried bod portreadu Duw'r Tad yn waharddedig yn y traddodiad eiconograffaidd. Gwyddai mai'r ymgnawdoliad yw pinacl datguddiad Duw a bod dylunio eiconau yn tarddu o eiriau'r Arglwydd: *'Y mae'r sawl sydd wedi fy ngweld i wedi gweld y Tad'*. (Ioan 14:9) Ond sut oedd dylunio'r Drindod sy'n Dri Pherson?

Gwyddai Andrei hefyd fod traddodiad yr Eglwys o'r cyfnod cynharaf ymlaen yn dirnad awgrymiadau, a datganiadau o'r Drindod hyd yn oed yn yr Hen Destament – yn amlycaf oll yng ngeiriau allweddol Genesis 1:26 *'Gwnawn ddyn ar ein delw, yn ôl ein llun ni'*. A dyna oedd yr allwedd i'r eiconograffydd disglair. Yr Hen Destament oedd y chwarel roedd angen i Andrei ei chloddio, ac oddi fewn iddi – yn yr haenau 'Trindodaidd' roedd y deunydd ar gael i Andrei –  yn benodol hanes ymweliad y Tri Ymwelydd 'cyfriniol' ag Abraham.

Nid syniad i ysbrydoli ei greadigedd a welodd Andrei yma. Nid dyna y byddai wedi bod yn chwilio amdano, ac nid dyna sut y byddai wedi amgyffred ei alwedigaeth. Tasg ddiwinyddol oedd ganddo – un o ufudd-dod i air yr Ysgrythur a dysgeidiaeth y gymuned ffydd, ac un o dreiddio i ddirgelwch dwyfol y digwyddiadau yn y stori. Nid problem iddo ef oedd y cwestiynau ieithyddol fu'n cythryblu rhai cyfieithwyr cyfoes, ond yn hytrach allwedd i'r holl hanes.

Gwelai nad oedd y newid yn ôl ac ymlaen rhwng ffurfiau unigol a lluosog yn y stori yn ddim amgen na datganiad amlwg mai'r Drindod Sanctaidd oedd yr Ymwelwyr Cyfrin, ac mai cyfoeth amhrisiadwy o ddatguddiad oedd yn y neidio aml yn y testun rhwng unigol a lluosog.

*'Ymddangosodd yr <u>Arglwydd</u> i Abraham...Cododd [Abraham] ei olwg, a gwelodd <u>dri gŵr</u> yn sefyll o'i flaen. Pan welodd <u>hwy</u>, rhedodd o ddrws y babell <u>i'w cyfarfod</u>, ac*

*ymgrymu i'r llawr, a dweud, "F'Arglwydd, os cefais ffafr yn d'olwg, paid â mynd heibio i'th was...golchwch eich traed a gorffwyso dan y goeden, a dof finnau â thamaid i'ch cynnal, ac wedyn cewch fynd ymaith; dyna pam yr ydych wedi dod at eich gwas." Ac meddant, "Gwna fel y dywedaist...."' (Gen 18:1 -6) 'Gofynasant iddo, "Ble mae dy wraig Sara?" Atebodd yntau, "Dyna hi yn y babell". Yna dywedodd yr Arglwydd, "Dof yn ôl atat yn sicr yn nhymor y gwanwyn, a chaiff Sara dy wraig fab"'.* (Gen 18:9)

Tasg Andrei yn awr oedd canolbwyntio ar y rhyfeddod, y dirgelwch, y datguddiad, yr arwyddocâd diwinyddol. Deallai fod manylion yr hanes yn fynegbyst ysbrydol yn cyfeirio ymhell y tu hwnt iddynt eu hunain at fywyd y Deyrnas ac at wahoddiad y Drindod Sanctaidd inni oll fod yn gyfranogion o gariad Dwyfol y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân – cylch perffaith y cariad diamodol ac aberthol sy'n llifo allan ar y greadigaeth gyfan a grëwyd o gariad Duw. Dyna yw ystyr y ffaith bod un o ddwylo pob 'angel' yn cyfeirio i lawr at y sgwâr bach sy'n symbol o'r byd ac a welir ar flaen yr 'allor'.

Dywedir fod y tri 'angel' yn myfyrio ar y geiriau *'Canys felly y carodd Duw y byd fel y rhoddes efe ei unig-anedig Fab . . .'*. (Ioan 3:16)

Mae'r eiconograffydd yn ein gwadd hefyd i weld y cysylltiadau sagrafennol pellach - nid yn unig bod y llestr yn garegl (cwpan cymun), ond bod ochr fewnol y ddau angel allanol yn ffurfio siâp caregl hefyd, ac mai Crist felly yw'r 'Angel' yn y canol o fewn y 'garegl.' Mae pabell Abraham yn deml yn dynodi'r Eglwys ac mae'r Ysbryd Glân, y Bywiawdwr (mewn gwisg werdd) yn tywys yr holl greadigaeth at yr Eglwys lle y daw i'w chyflawnder. Gwelir hyn yng ngogwydd y mynyddoedd a'r goeden.

Yn bennaf oll gwelwn mai ni bellach yw gwesteion y Tri Pherson Dwyfol a fu'n westeion i Abraham. Tri sy'n eistedd wrth y bwrdd, ond lle i bedwar sydd yno. I bob un ohonom ni daw'r gwahoddiad yn a thrwy yr Ewcharist i fod yn gyfranogion o fywyd y Drindod, gan eistedd dan ganghennau Pren y Bywyd (Genesis 2:9) - yr union bren y mae ei ddail *'er iachâd y cenhedloedd'*. (Datguddiad 22:2). Yr oedd Sant Andrei wedi gallu hybu gweledigaeth sylfaenydd ei fynachlog, a byddai ei gyd-fynaich a miloedd o bobl ledled y byd yn cael eu hysbrydoli i geisio *'drwy ddwysfyfyrio ar y Drindod Sanctaidd allu gorchfygu'r casineb sy'n rhannu'r byd'.*

Y Tad Deiniol, Yr Eglwys Uniongred, Blaenau Ffestiniog. 31 VIII 15

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru.
6 rhifyn drwy'r post £4. **Hoffem eich atgoffa'n garedig, er bod y *Gwyliedydd* am ddim, fod angen talu swm bychan iawn, £4 y flwyddyn, i gael copi unigol drwy'r post.**

etc
etc

**DYDDIAD CAU: 2 TACHWEDD, 2015**

**Llun y clawr gan Tim Coleman. Argraffir y penillion drwy garedigrwydd y Parchedig John Gwilym Jones: fe'u hanfonwyd at deulu'r diweddar Barchedig Raymond Hughes ar ôl clywed y newydd am ei farwolaeth.**

Diolchwn yn gynnes am y tanysgrifiadau a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd:

| | |
|---|---|
| Mrs M.R.Davies, Ffair Fach, Llandeilo | £ 4-00 |
| Mrs A. M. Edwards , Llanfairtalhaiarn | £15-00 |
| Dienw | £20-00 |
| Morfudd E. Roberts, Abergele | £20-00 |
| Gwyneth Ellis, Bebington, er cof am Mr a Mrs Glyn | |
| Macdonald a Dafydd, Bebington | £20-00 |
| Parch M. a John Presdee, Horncastle | £ 4-00 |
| Llyfrgell Caerdydd | £ 4-00 |
| J.R. a Merle Davies, Abergwaun | £ 4-00 |
| Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd | £400-00 |

O’r Gadair ar y Goror
gan y Parchedig JENNIFER HURD

"O ble rydych chi'n dod?" Dyna gwestiwn cyfarwydd ers imi ddod i fyw unwaith eto yng Nghymru. Wel, o ble rydw i’n dod, fel gweinidog yn yr Eglwys Fethodistaidd, sydd wedi symud o gwmpas cymaint? Fel arfer, dywedaf fy mod yn byw ar hyn o bryd yn Four Crosses, ger Llanymynech. Yna, gan amlaf, bydd y sawl sy'n holi yn sôn am ffrind neu berthynas sy'n byw yn y fro, rhag ofn fy mod i'n eu nabod. Ac yn amlach na pheidio, byddaf innau’n eu siomi, gan nad wyf yn nabod llawer o bobl fy milltir sgwâr oherwydd, fel Cadeirydd y Synod treuliaf fy amser yn teithio drwy’r wlad. Mae’n teimlo weithiau mai’r byd, fel y dywedodd John Wesley, yw fy mhlwyf (neu Gymru, o leiaf...).

Fel y gŵyr pawb, nid cwestiwn am ddaearyddiaeth yw "O ble rydych chi'n dod?" yma yng Nghymru ond cwestiwn am berthyn a chysylltiadau. Yn Lloegr, y cwestiwn cyntaf yn aml mewn sgwrs â rhywun newydd yw beth y mae’n ei wneud yn hytrach nag o ble y mae’n dod, ble mae ei gysylltiadau. **Ond rhan hanfodol o’n natur ni oll yw ein hangen i berthyn. Yn wir mae’n rhan sylfaenol o'n gwneuthuriad ar lun a delw Duw, y Drindod Sanctaidd sy'n dangos perthynas berffaith ynddi ei hun.**

Rhwng 2009 a 2013 cefais gyfnod o astudio diwinyddiaeth fel myfyrwraig aeddfed. Cofiaf deimlo ar goll yn fy nhymor cyntaf: i ble neu i bwy roeddwn i’n perthyn? Doeddwn i ddim yn aelod o'r coleg diwinyddol fel y rhai a oedd yn hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth yno (mi es i drwy'r broses honno yn y nawdegau cynnar!); doeddwn i ddim yn aelod o'r Brifysgol yn yr un ffordd â'r bobl ifanc a oedd yn astudio yno; doeddwn i ddim yn aelod o dîm staff y gylchdaith lle roeddwn i'n byw, er mor gyfeillgar oedden nhw tuag ataf. Roeddwn i'n poeni ac yn gweddïo dros y mater yma ar fy ffordd adref yn y trên un noson, ac wrth imi fynd i lawr grisiau'r orsaf o'r platfform yn y glaw a'r tywyllwch, ymysg torf o deithwyr eraill, mi glywais i lais yn dweud, "You belong to me." Mi deimlais i dangnefedd.

“Rwyt ti’n perthyn i mi". **Rydym ni i gyd yn perthyn i Dduw**. **Dyna ffynnon ein dyhead i addoli Duw.** Mae addoliad yn ffordd o fynegi ac o gryfhau ein perthynas â Duw, yn ffordd o roi iddo ac o dderbyn ganddo. Yn wir, fe dderbyniwn fwy gan Dduw nag y gallwn fyth ei roi: derbyniwn yn ddifesur. Pan ddeuwn i oedfa, cawn gyfle i dreulio amser yn fwriadol ym mhresenoldeb Duw, yn gwrando arno a dod â phethau dyfnaf ein calonnau ato. Mae fel treulio amser efo'n ffrind orau erioed (neu felly y dylai fod), ac mae'n brofiad sy'n adeiladu ein perthynas â'n gilydd fel cyd-addolwyr, cyd-ffrindiau i’r un Ffrind. Mae hyn yn rhan o’n cymdeithas â Christnogion o bob

traddodiad; o fewn yr Eglwys Fethodistaidd fe soniwn am fod "mewn cyfundeb", hynny yw yn perthyn i'n gilydd drwy'r Eglwys Fethodistaidd gyfan ym Mhrydain. Gwerthfawrogaf yr hyn a ysgrifennodd y diweddar Barchedig EH Griffiths yn y darn am ei ddyddiau coleg yn Birmingham yn Bathafarn Bach 5 (ar gael o hyd ar wefan Synod Cymru: www.synodcymru.org.uk). Mae'n dweud:

> Yn Lloegr deuthum i garu ac edmygu'r cyfundeb y perthynaf iddo... Gyrrwyd fi yn ffodus, yn Gymro o'r Cymry...i ganol hanner cant o Saeson uniaith. Dysgais i fod angen dysgu i fyw mewn cymdeithas, i roi a derbyn, chwerthin ar ben fy hun yn ogystal ag ar ben eraill. Ehangwyd gorwelion fy mywyd.

Mae'r geiriau yn sicr yn taro tant i mi, pan feddyliaf am fy mhrofiad o ddod i weithio yng Nghymru fel un o weinidogion y Cyfundeb. Ar yr un pryd, meddyliaf am Mrs Siân Williams o Ardal Glannau Maelor, sy'n dechrau ei hyfforddiant fel gweinidog yn Birmingham yr hydref hwn. Gobeithio y bydd Siân hithau yn cael ei chryfhau, drwy ei phrofiad yn y coleg, yn ei pherthynas â Duw a'i bobl. **Cofiwch am Siân, ac am bawb sy'n hyfforddi ar gyfer gweinidogaethu, yn eich gweddïau, os gwelwch yn dda.**

“Rwyt ti'n perthyn i mi," a ninnau i gyd yn perthyn i'n gilydd yng nghariad anfeidrol y Duw sy'n cofleidio pob un o'i blant annwyl yn ei gariad, heddiw ac am byth. Duw a'ch bendithio chi wrth i chi ddangos hynny yn eich perthynas â phawb.

## W. J. Gruffydd

gan Gwyndaf Roberts

Ganwyd W. J. Gruffydd ar 14eg Chwefror 1881, yng Ngorffwysfa, Saron, Bethel, yn fab i John a Jane Elizabeth Griffith. Annibynwyr oeddynt fel teulu gyda'i dad yn ddiacon ym Methel, capel yr Annibynwyr. Cafodd addysg yn ysgol y pentref ac wedi iddo ennill ysgoloriaeth, roedd ymhlith disgyblion cyntaf Ysgol Sir Caernarfon a agorwyd 19eg Chwefror 1894. Derbyniwyd ef yn 1899 i Goleg Iesu, Rhydychen lle graddiodd mewn llenyddiaeth Saesneg. O 1906 ymlaen bu'n ddarlithydd yng Ngholeg y Brifysgol Caerdydd, gan ddod yn Athro yno yn 1918, a pharhau yn y swydd nes iddo ymddeol yn 1946. O 1940 hyd 1950 bu'n aelod seneddol dros Brifysgol Cymru yn dilyn brwydr chwerw rhyngddo ef a Saunders Lewis.

Daeth W J Gruffydd i sylw ei gyd-Gymry yn 1900 pan gyhoeddodd R Silyn Roberts ac ef, '*Telynegion',* cyfrol a gafodd groeso brwd ac a ystyrid yn flaenffrwyth yr 'Ysgol Newydd' o feirdd, yn ôl neb llai na T Gwynn Jones. (Gweler cofiant ardderchog David Thomas - Silyn, 1871-1930, am ymdriniaeth bellach o'r gyfrol '*Telynegion*'). Cyhoeddodd W J Gruffydd ei gasgliad cyntaf ei hun yn 1906, sef *'Caneuon a Cherddi'*. Enillodd Goron Eisteddfod Llundain 1909 am ei bryddest feistrolgar *'Yr Arglwydd Rhys'*. Daeth *'Ynys yr Hud a chaneuon eraill'* o'r wasg yn 1923, ac yn 1932 cyhoeddodd Gwasg Gregynog *'Caniadau'*, sef detholiad yr awdur o'r cerddi roedd yn fodlon eu harddel.

Nid oes llawer o sôn am farddoniaeth W J Gruffydd heddiw, ond ar ei orau ni fu neb gwell nag ef ymhlith beirdd yr ugeinfed ganrif. Mae *'Ynys yr Hud'* yn berl o gerdd sy'n sôn am ddau a aeth i bellafoedd byd *"am nad oedd gwyrthiau'r Arglwydd / ar lannau Menai dlawd"*. Mae naws arbennig i *Gwladys Rhys; Thomas Morgan yr Ironmonger; Cerdd yr Hen Chwarelwr; Cefn Mabli; Y Tlawd Hwn* ac mae *Ywen Llanddeiniolen* yn llawn arswyd a braw o hyd.

Ni chyfrifir W J Gruffydd fel bardd crefyddol ond *Cathl i'r Ysbryd Glân* yw'r molawd gorau yn yr iaith Gymraeg i'r Ysbryd Sanctaidd yn fy nhyb i. Llwyddodd hefyd i ddal ysbryd cerdd G K Chesterton yn *Yr Asyn*, gyda'r cwpled clo bythgofiadwy yn atseinio - *"'Roedd sain Hosanna yn fy nghlust,/ a phalmwydd dan fy nhraed".*

Nid oes lle yma i olrhain campau rhyddiaith Gruffydd ond bydd y rhai a gafodd y fraint o astudio '*Hen Atgofion'* yn gwybod eu bod wedi darllen un o gampweithiau'r Gymraeg. Ei waith mawr arall oedd fel golygydd 'Y Llenor' o 1922 hyd 1951. Yn ei Nodiadau'r Golygydd o 1926 ymlaen, traethodd ei farn yn groyw ar nifer fawr o bynciau llosg y dydd gan gynnwys crefydd. Dywed Dafydd Glyn Jones, Bangor, yn ei ragair i *Eira Llynedd ac Ysgrifau Eraill* fod Gruffydd, a oedd yn broffwyd mewn sawl maes, ymhlith y mwyaf amhoblogaidd o bobl ei gyfnod oherwydd ei ddawn i draethu heresi neu gredo a oedd yn anathema yng ngolwg llawer.

Nid oedd Gruffydd yn ofni traethu ei farn a bu mor ddewr ag annerch Undeb yr Annibynwyr ym Machynlleth ym mis Mai 1928 ar "Syniadau Lleygwr am Natur Eglwys". Mae'n gweld o'i ddarlleniad o'r Efengylau mai rhywbeth bychan iawn a detholedig yw'r Eglwys. Fe ddywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion - *Chwi yw halen y ddaear.* Rhan fach ond cwbl hanfodol o fara yw halen. Y bara yw dynion yn gyffredinol, a'r Eglwys yw'r halen. Credai Gruffydd nad oedd Iesu yn meddwl y byddai'r byd i gyd yn Eglwys nac yn rhan fawr na bach hyd yn oed ohono. Ffordd Duw o achub y byd oedd trwy ychydig o halen yr Eglwys. Gwêl Gruffydd yr enwadau i gyd yn ceisio dod â'r byd i gyd i mewn i'r Eglwys yn groes i ddarlun Iesu o'r bara a'r halen. Wrth sôn am ardal y gwyddai amdani o bedwar cant o bobl dywed fod 380 ohonynt yn aelodau eglwysig. Yn anffodus nid oedd Teyrnas Duw wedi gwawrio ar yr ardal honno eto. Nid oes rhyfedd iddo wylltio pobl gyda datganiadau fel hyn.

Mewn lle arall fe ddywed mai cyfundrefn grefyddol oedd Piwritaniaeth i wneud i bobl eraill fyw yn foesol! Agwedd Iesu yn ei ddysgeidiaeth oedd amddiffyn pobl ond agwedd Cristnogion Cymru oedd erlyn, meddai Gruffydd. Y ddamnedigaeth iddo ef oedd bod y byd wedi meddiannu'r Eglwys ers cyfnod Cystennin. Sut, er enghraifft, y gall Eglwys weddïo am heddwch pan mae canran nid ansylweddol o'i haelodau o blaid rhyfel?

Na, nid dyn hawdd byw gydag o oedd Gruffydd gan fod ganddo syniadau anghonfensiynol a dweud y lleiaf. Mewn byd di-liw mae'n bwysig cael cymeriadau sy'n barod i herio byd ac Eglwys. Mentro i fod yn amhoblogaidd wrth wneud hynny oedd cymwynas fawr Gruffydd i'w gyfnod.

Bu farw W J Gruffydd 29ain Medi 1954. Mewn cynhebrwng bach teuluaidd ym mynwent Llanddeiniolen, Sadwrn 2il Hydref darllenwyd, yn ôl dymuniad Gruffydd, emyn Pantycelyn – *O Iachawdwr pechaduriaid, sydd â'r gallu yn dy law.* Mae'r emyn yn cloi gyda'r geiriau *Dan y nef ni thâl ei garu / wrthrych arall ond fy Nuw*. Carreg o dir Cae Meta, fferm ei hen daid, sydd ar y bedd yn Llanddeiniolen gyda'i enw a'i ddyddiadau arni a'r geiriau ATHRO BARDD LLENOR.

Efallai y dylid bod wedi ychwanegu *PROFFWYD* hefyd.

## COLOFN GERDD gan GARETH BLAINEY

## PEN-BLWYDD HAPUS YN 50, BRYN

**Ar Dachwedd y 9fed bydd Bryn Terfel yn dathlu ei ben-blwydd yn 50 oed ac yn dathlu'r ffaith ei fod yn un o brif ganwyr y byd ers mwy na hanner ei fywyd. Yn 1989 y daeth ei lais bas-bariton cyfoethog i sylw'r byd am y tro cyntaf pan orffennodd y dyn ifanc o Bantglas yn ymyl Caernarfon yn ail y tu ôl i'r bariton o Rwsia Dmitri Hvorostovsky yn rownd derfynol cystadleuaeth 'Canwr y Byd' yng Nghaerdydd. Bum mlynedd yn ddiweddarach dyma gyfieithiad o adolygiad ym mhapur newydd y *New York Times* gan y beirniad cerdd blaenllaw Edward Rothstein, o berfformiad Bryn yn rhan Figaro yn opera Mozart, *Priodas Figaro* (yn canu mewn Eidaleg) ar lwyfan y Tŷ Opera Metropolitan yn Efrog Newydd:**

**"Mae gan ei lais fomentwm sy'n rhoi'r argraff y gwnaiff o barhau i deithio'n ddiymdrech gryn amser ar ôl iddo daro'r glust. Roedd Mr Terfel yn fawr ei ofal nid yn unig o'r iaith ond hefyd o sain ac ystyr y geiriau. Roedd o fel petai yn byw'r rhan yn hytrach na dim ond ei chyflwyno.....a dyna pam, yn 28 oed, ei fod yn cynnig gobaith i genhedlaeth o bobl sy'n mwynhau operâu."**

**Ers 1994 mae Bryn wedi disgleirio mewn nifer o operâu eraill ac yn gynharach eleni cafodd ganmoliaeth uchel am ei waith ym mhrif ran Tevye yn sioe gerdd *Fiddler on the Roof*. Rhagorol ("outstanding") oedd asesiad beirniad cerdd papur newydd y *Guardian,* George Hall, o'i berfformiad yn Grange Park yn Hampshire.**

**Ar nodyn personol perfformiais i yn yr un gwasanaeth priodas â Bryn dros ddeng mlynedd ar hugain yn ôl. Yn ystod haf 1983 fi oedd yr organydd mewn priodas yng nghapel Ebeneser, Caernarfon. Doedd y pâr priod ddim wedi gofyn i mi ganu'r organ tra oedden nhw'n arwyddo'r gofrestr ac ar ôl iddyn nhw fynd i wneud hynny daeth Bryn i'r sêt fawr a chanu'n ddigyfeiliant yn wych. Rydw i'n dal i gofio'i lais yn atseinio y tu mewn i'r capel ac mae hi wedi bod yn bleser pur clywed y llais arbennig hwnnw ar hyd y blynyddoedd. Pen-blwydd hapus, Bryn.**

## O'r Pen Yma

**gan Angharad Tomos**

Wyddoch chi un peth dwi'n ei fwynhau am fynd i'r capel? Dwi'n mwynhau cwmnïaeth y gynulleidfa, a'r awr i lonyddu o ddwndwr y byd a'r cyfle prin bellach i wrando ar beth sydd gan rywun i'w ddeud, ydw. Ond y peth gorau gen i ydi canu. Ar wahân i ar y Sul, anaml iawn ydw i'n canu yn ystod yr wythnos. Wn i ddim yn y byd pam – tydi'r cyfle ddim yn codi. Roedd fy chwaer yn aelod o fwy nag un côr a grŵp gwerin, felly mi dreuliodd hi dipyn mwy o'i bywyd yn canu na mi.

Yng Nghapel Ty'n Lôn, mae'n draddodiad i forio canu. Mae'n rhaid inni, mond rhyw hanner dwsin ohonon ni sydd 'na. Cwyn llawer mewn capeli ydi nad oes na neb i chwarae'r offeryn, ond rydan ni wedi dod dros y broblem honno. Flynyddoedd yn ôl, gofynnodd Nhad i'm chwaer recordio ei hun yn chwarae dwsinau o emynau. Felly bob Sul bellach, mae Nhad yn rhoi casét yn y peiriant hynafol, ac mae gennym gyfeiliant dim ond drwy bwyso botwm.

O'n clywed yn canu, byddech yn meddwl ein bod yn yr Albert Hall mewn cystadleuaeth gorawl, ac mae'n syndod gan ein bod yn griw mor fach. Ond dwi'n credu fod pob un ohonom yn mwynhau canu. Rydan ni wedi rhoi *Caneuon Ffydd* o'r neilltu ers talwm, ac wedi mynd yn ôl i ddefnyddio'r Llyfr Emynau traddodiadol (1927). Does dim Sul yn mynd heibio nad ydi'r pregethwr yn cyfeirio at ei fwynhad o'r emynau. Mae llawer o'r clasuron wedi'u hepgor o *Caneuon Ffydd*.

Un o'm hoff gyfansoddwyr yw Moelwyn; mae o'n fardd dramatig iawn, ac yn un fedr greu delweddau. Dwi'n meddwl am yr emyn 'Pwy a'm dwg i'r Ddinas Gadarn?' Pan oedd chwarelwrs Sir Gaernarfon yn cael un diwrnod o seibiant o gerdded y ddwy, dair milltir i'r chwarel ar hyd lonydd llychlyd, roeddent yn cael dychmygu 'rhodio'r palmant aur' ar y Sul. Pan oedd eu gwragedd, oedd wedi gweithio'n galed drwy gydol yr wythnos yn dod i'r capel, caent ganu am 'waith a gorffwys wedi mynd yn un'. Pan oedd tlodi yn eu llethu, a'r profedigaethau yn llym, caent ddychmygu gweld 'tyrau gwych y Ddinas bell'. Yn y bennill olaf, daw'r ateb i'r cwestiwn, '*Iesu* a'm dwg..', ac mae'r dôn a'r geiriau yn gweddu yn berffaith. Ar y nodau uchaf y daw'r 'Iechydwriaeth', ac mae'n cael ei ail adrodd, rhag ofn fod rhywrai ohonom yn amau.

Ew, dan ni'n lwcus yn ein hetifeddiaeth emynyddol – ac mae Pantycelyn ac Ann Griffiths yn hufen ar y gacen. Mae crynswth y ffydd Gristnogol yn cael ei grisialu yn aml mewn cwpled neu bennill o emyn gan y rhain. Ac yn aml ar y ffordd adre, mi fyddwn ni yn dwyn i gof y perlau hyn, ac maent yn aros yn ein cof.

Da ydi gallu canu.

Angharad Tomos

**Horeb, Llanrwst**

**ADDOLI GYDA'N GILYDD**

Yn ystod mis Awst cynhaliwyd oedfaon undebol; cafwyd cynulleidfa dda yn Horeb ar fore Sul yr 8fed o Awst, yng nghwmni ein gweinidog y Parchedig Philip Barnett. Oherwydd gostyngiad yn nifer yr aelodau, penderfynwyd parhau i gynnal ein hoedfaon yn y festri.

**CYMANFA GANU**

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Eisteddfod Gadeiriol Llanrwst yn Horeb ar 21 Mehefin dan arweiniad hwyliog Mr Dilwyn Price, Hen Golwyn, gyda Mrs Heulwen Morris yn cyfeilio ar yr organ. Cafwyd datganiadau telyn gan rai o ddisgyblion Ysgol y Creuddyn. Y llywydd oedd Mr Robin Jones, Bethel, a chafwyd sgwrs ddiddorol ganddo yn olrhain ei brofiad o eisteddfota a'i blentyndod.

**PRIODAS**

Dydd Sadwrn, Awst 8fed cynhaliwyd priodas Sioned a Hywel Roberts. Sioned yn un o blant y capel ac yn ferch i Arwel ac Elfrys Roberts. Cynhaliwyd y gwasanaeth priodasol dan law y Parchedig Philip Barnett gyda Chris Roberts yn cyfeilio ar yr organ. Cafwyd datganiad cerddorol gan frawd y priodfab sef Siôn Roberts. Yn dilyn y gwasanaeth cynhaliwyd y neithior ym Mhlas Isaf ger Corwen. Hyfryd oedd gweld y ddau deulu a chyfeillion yn mwynhau.

*Gohebydd – Eira Jones*

**Ebeneser, Tywyn**

**PEDAIR CENHEDLAETH**

Dymunwn fel eglwys longyfarch Mrs Blodwen Parry (gweddw'r diweddar Barchedig Geraint Wynne Parry), ei merch Annewen Roe, ei hwyres Dr Hannah Tang, a'r teulu oll, ar enedigaeth Abigail Charlotte.

[LLUN CN1]

*Gohebydd – Noel Williams*

**Ebeneser, Trefor, Môn**

**LLONGYFARCHIADAU**

Llongyfarchwn Arwyn Foulkes sydd wedi llwyddo yn ei arholiad piano Gradd 3. Mae hefyd yn chwarae’r corn ac yn aelod o Fand Ieuenctid Biwmares. Llwyddodd ei chwaer, Mared, i gael canlyniadau ardderchog yn ei harholiadau TGAU a dymunwn yn dda iddi yn y chweched dosbarth.

**BRYSIWCH WELLA**

Cafodd Mrs Margaret Owen ddamwain a thorri ei choes. Gobeithio y bydd yn well yn fuan. Anfonwn ein cofion ati.

*Gohebydd – Carys Thomas*

**Eglwys Unedig Colwyn**

**CYMANFA**

Ar 5 Gorffennaf cynhaliwyd Cymanfa Gydenwadol yn Horeb dan arweiniad Mr Dilwyn Price. Roedd arddangosfa gelf a chrefft yn yr ysgoldy a chyflwynwyd tystysgrifau a gwobrau ariannol i’r plant am eu darluniau rhagorol. Y cyfeilyddion oedd Siân Louise Bratch, Gwennan Haf Williams a Judith Rees Williams. Diolch i bawb am gyfrannu i lwyddiant yr achlysur.

**DYMUNIADAU GORAU A DIOLCH**

Cynhaliwyd Gwasanaeth Gollwng y Parchedig R. Ifor Jones ar 11 Gorffennaf a thalwyd teyrngedau iddo gan y Parchg. Ddr Ian Morris, Is-gadeirydd y Synod, y Parchg. Arglwydd Roger Roberts, Dennis Roberts, Bethel, Deganwy, Arfon Williams a Llinos Garstang. Darllenodd Llinos hefyd lythyr oddi wrth y Parchg. Ddr Jennie Hurd. Dymunwn oll ymddeoliad hir a hapus i Ifor a’i wraig Rhian. Cyflwynwyd basged o flodau i Rhian a rhodd ariannol i Ifor ar ddiwedd y gwasanaeth. Diolch yn fawr i’r organydd, Gwyn Jones, ac i Mrs Deryl Jones am baratoi te blasus iawn.

**COED CRAIG**

Cynhaliwyd ffair haf lewyrchus iawn yn Ysgoldy Eglwys Fethodistaidd Llandrillo yn Rhos ar 18 Gorffennaf. Codwyd dros £1,000 at redeg bws mini Coed Craig a gweithgareddau eraill.

**PEN-BLWYDD**

Llongyfarchiadau gwresog i Mr Harold Williams ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ar 29 Awst. Mae Harold a’i briod Megan yn byw yng Nghartref Wynn Crest, Hen Golwyn. Cofiwn yn annwyl amdanynt a phawb arall sy’n methu dod i’r oedfaon oherwydd gwaeledd.

**SBAEN**
Dymuniadau gorau i Gwenno Blythin sydd yn treulio blwyddyn fel athrawes yn Sbaen.

**SIALENS**
Braf oedd gweld Dewi Goulden yn cynrychioli Prifysgol Abertawe ar raglen 'University Challenge' yn ddiweddar.

**LLWYDDIANT**
Llongyfarchiadau i Iolo, ŵyr Arfon a Gwen Williams, sydd wedi pasio arholiad Gradd Un piano.

*Gohebydd – Rhiannon Jones*

## Pisgah, Rhiwlas

**BLWYDDYN GYFUNDEBOL NEWYDD**

Byddwn yn cynnal ein gwasanaeth cyntaf yn y flwyddyn eglwysig newydd yng nghwmni Mr J.O. Roberts, Bethesda, ar Fedi'r 6ed.

**BRYSIWCH WELLA**

Yn ddiweddar bu Mrs Meirwen Owen yn cael triniaeth yn yr ysbyty; dymunwn adferiad buan iddi.

**DATHLU PEN-BLWYDD**

Yn ystod yr haf fe ddathlodd Gareth ei ben-blwydd yn 30 oed. Cafodd barti hefo'i deulu a ffrindiau a mwynhau yn fawr iawn. Cofion at ei dad, Richard, sydd wedi bod am ysbaid yn yr ysbyty.

*Gohebydd – Dilys Parry*

## Bethel, Aberdyfi

**GWEITHGAREDDAU'R HAF**

Er nad oedd y tywydd yn ffafriol iawn, fe wnaethom fwynhau llawer o weithgareddau yn ystod yr haf. Ddwywaith y mis, mae cyfle i ymwelwyr alw i mewn ar fore Iau ac ar ddydd Mawrth mae gennym astudiaeth Feiblaidd. Diolch i Ceri Jones am drefnu hynny. Bob dydd Sul, wrth gwrs, mae oedfa yn cael ei chynnal am 2 o'r gloch.

[CN 2

*Hysbysfwrdd newydd Bethel, Aberdyfi*

CN3

*Mrs Mair Lloyd, Mrs Meirionna Davies, Miss Mair Williams, Y Parchg. Patricia Grudgings, gydag Ellie'r ci*]

*Gohebydd – Gerald Grudgings*

**Ebeneser, Dolgellau**

**DYMUNIADAU DA**

Dymunwn yn dda i Mr a Mrs Paul Duggan a Mrs Sylvia Jones yn eu cartref newydd yn Ne Lloegr. Buont fel teulu yn selog iawn yn Ebeneser tra'n byw yn Nolgellau.

**CYDYMDEIMLO**

Cydymdeimlwn â'r Chwaer Eluned Williams sydd wedi colli chwaer-yng-nghyfraith annwyl iddi yn nechrau Awst, gwraig i Mr Dewi Williams, Wrecsam.

*Gohebydd – Gwyneth Meredith*

**St Paul, Aberystwyth**

**LLONGYFARCHIADAU**

Llongyfarchiadau mawr i Beatrice, merch Michael a Fran Edwards. Er gwaethaf cyfnod hir o salwch mae Beatrice wedi gwneud yn dda iawn yn ei harholiadau lefel A ac mae'n mynd ymlaen nawr i Brifysgol Birmingham yn yr hydref.

**GWASANAETHAU**

Yn ôl ein harfer bu capeli Cymraeg Aberystwyth yn cydaddoli trwy gydol mis Awst. Cafwyd gwasanaethau bendithiol yn y gwahanol gapeli. Roedd y gwasanaethau yn St Paul ar 23 Awst dan arweiniad y Parchedig Eifion Roberts, gweinidog Capel y Morfa, a daeth cynulleidfa dda i'r ddau wasanaeth. Rydym yn ddiolchgar i'n gweinidog a'r aelodau hynny a oedd yn gyfrifol am y trefniadau.

*Gohebydd – Lionel Madden*

**Horeb, Croesoswallt**

[LLUN CN4]

**SUL GWEITHREDU DROS BLANT**

Ar 12 Gorffennaf cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn Horeb i ddathlu gwaith Gweithredu dros Blant. Trefnwyd yr oedfa gan Mrs Sheila Ann Thomas, sydd wedi bod yn weithgar iawn dros yr elusen hon am lawer o flynyddoedd. Cymerwyd rhan gan nifer o'r aelodau a gwnaethpwyd casgliad sylweddol at yr achos. Ar y diwedd cawsom fwynhau paned a sgwrs yn y festri.

**GWAELEDD**

Bu Mrs Margaret Jones, priod y Parchedig Gwilym O. Jones, yn Ysbyty Amwythig yn derbyn triniaeth. Dymunwn yn dda iddi gan obeithio y bydd yn gwella'n fuan. Mae Mrs Myfyd Davies hefyd yn dioddef o anhwylder a dymunwn adferiad buan iddi hithau.

*Gohebydd – Eurwyn Jones*

**Tabernacl, Llanfyllin**

**GWEITHREDU DROS BLANT**

Ar 12 Gorffennaf cynhaliwyd y gwasanaeth blynyddol i ddathlu gwaith Gweithredu Dros Blant, dan lywyddiaeth y Parchedig Gwyndaf Richards. Cafwyd darlleniadau gan Mrs Shirley Powell a Mrs Eva Roberts ac arweiniwyd y gweddïau gan Miss Rhoswen Charles. Diolch i Eldrydd Jones am gyfeilio. Siaradodd Mr Keith Blacker

am y gofal a gaiff pobl ifanc digartref gan yr elusen, gan nodi nad yw'r gwaith bob amser ymhell i ffwrdd yn y dinasoedd ond mewn ardaloedd gwledig fel ein hardal ni. Roedd cyfanswm y casgliad er budd Gweithredu Dros Blant yn £92.50; at hyn casglwyd £168 hefyd mewn blychau casglu unigol.

**LLONGYFARCHIADAU**

Llongyfarchwn Tom Ellis a'i frawd John Ellis ar dderbyn Tystysgrifau Gwobr Barcud Cyngor Sir Powys am eu gwasanaeth i'r gymuned yn yr ysgolion a'r canolfannau chwaraeon dros nifer fawr o flynyddoedd. Gwnaed y cyflwyniad yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd fis Gorffennaf eleni. Rydym ninnau'n ymwybodol o'u gwaith a'u gwasanaeth yn yr eglwysi a chapeli lleol.

**CYDYMDEIMLO**

Bu farw Mrs Nellie Humphreys, Bronygaer, yng nghartref gofal Llwynteg. Cydymdeimlwn yn fawr â Wena'r ferch a'r holl deulu yn eu colled a'u galar. Bu Nellie a'i gŵr Eddie ar un adeg yn ofalwyr Capel y Tabernacl.

**LLWYDDIANT EISTEDDFODOL**

Llongyfarchiadau unwaith eto I Rhodri Prys Jones, Yr Ogof, ar ei lwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Enillodd yr Unawd Lieder dan 25 oed a chafodd lwyfan ar gystadlaethau eraill hefyd, yn ogystal â chymryd rhan yn y Sioe Gerdd 'Gwydion' gyda Theatr Maldwyn.

*Gohebydd – Robin Hughes*

**Pontrobert**

Dymunwn yn dda i Elen Jones, Bodyddon Fach, Llanfyllin, sy'n dechrau ym Mhrifysgol Caerdydd, a hefyd Mari ei chwaer sydd wedi gwneud yn dda iawn yn ei harholiadau yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin.

*Gohebydd – Margaret Blainey*

**Preswylfa, Cyffordd Llandudno**

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Amy Garstang, a raddiodd yr haf yma.

[Llun CN 5, Amy Garstang]

**Pendref, Dinbych**

**CYDYMDEIMLO**

Cydymdeimlwn â Rowena a Steven, merch a mab yng nghyfraith Mrs Gwen Millward gynt o Stryd Y Parc, Dinbych, a fu farw yn ddiweddar yn 94 oed. Cydymdeimlwn â'r teulu oll. Yr un yw ein cydymdeimlad â theulu Gwynfor Evans, mab y diweddar Mr Mrs Meredydd Evans, Garej y Ffowndri, brawd Margueritte ac Elfed, a fu farw'n sydyn iawn.

**GWELLHAD BUAN**

Anfonwn ein cofion at Gareth Roberts, mab Geraint a Beti Roberts, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gwellhad buan hefyd i Mrs Diana Roberts.

**UNDEBOL**

Yn ystod mis Awst cynhaliwyd dau wasanaeth undebol ym Mhendref y naill dan arweiniad Mr Tom Williams, Dinbych, a'r llall dan arweiniad y Parchedig Eifion Jones, Dinbych.

*Gohebyddion – Mary Jones a Rhiannon Rogers*

**Ebeneser, Eglwysbach**

**DYWEDDIAD**

Llongyfarchiadau i Eurgain, merch Ieuan ac Elen Hughes, Bryn Hafod, ac Edward, mab Hugh a Siân Nutting, Cwm Rhwyddfor, Tal-y-llyn, Tywyn ar eu dyweddïad.

**LLWYDDIANT**

Llongyfarchiadau i Osian, Bryn Hafod, sydd wedi cwblhau ei gwrs yng Nglynllifon. Dymuniadau gorau iddo ym Mhrifysgol Aberystwyth. Llongyfarchiadau hefyd i Miriam Hughes, Tu Hwnt i'r Fawnog, ar ei llwyddiant yn yr arholiadau AS.

**CYMANFA GANU SIOE EGLWYSBACH**

Ar nos Sul Awst 16 cynhaliwyd Cymanfa'r Sioe yn Ebeneser o dan arweiniad hwyliog Tudur Eames. Mrs Diana Hughes oedd wrth yr organ. Cawsom noson arbennig a chodwyd dros £400 i elusen MS. Rhoddwyd y Fendith gan y Parchedig Philip Barnett

a diolchwyd i bawb gan Deryl Jones ar ran y Sioe. Diolch i Glynwen Davies am y lluniau.

[LLUNIAU CN6 a 7]

*Gohebydd – Charles Crapper*

**Pendref, Yr Wyddgrug**

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Cerys Goggin, wyres Richard ac Ann Jones, Bron-y-Nant, Yr Wyddgrug ar ennill cadair Eisteddfod Ysgol y Garnedd, Bangor.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Mrs Mary Morris a'r teulu a gollodd ei brawd Dennis, a oedd yn byw yng Nghilcain. Hefyd â Mrs Ann Jones, priod ein hysgrifennydd Mr Richard Francis Jones, a gollodd berthynas agos yn Reading.

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein cofion at Miss Enid Jones a gafodd ddamwain yn ddiweddar ac a symudodd ar ôl hynny i gartref yn Bistre, ger Bwcle. Gobeithiwn y bydd yn hapus yn ei chartref newydd. Bu Mrs Vera Williams (gweddw'r Parchedig Elfyn Williams) yn Ysbyty'r Wyddgrug am rai misoedd, ond mae gartref yn awr – gobeithio y cawn ei gweld eto'n fuan gyda'i gwên arferol.

**PRIODAS DDIEMWNT**
Dathlodd Vera a Bryn ben-blwydd priodas arbennig – 60 mlynedd – ar 27 Gorffennaf. Diolchwn am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd gan amryw o gyfeillion o bell ac agos.

*Gohebydd – Parchg. J. Bryn Jones*

**Ebeneser, Treuddyn**

**ATGYWEIRIO'R CAPEL**

Rydym yn falch bod y gwaith o roi to newydd ar Gapel Ebeneser wedi ei gwblhau ac rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi helpu gyda glanhau tu mewn a thu allan yr adeilad.

## PRIODAS ALAW A MARVIN

Dydd Sadwrn 15 Awst 2015 cawsom ddiwrnod hapus iawn yn Ebeneser pan briodwyd Alaw a Marvin Smith gyda'r Parchedig Marc Morgan yn gweinyddu a Mrs Margaret Roberts wrth yr organ. Mae Alaw yn ferch i Bronwen ac Ian Gough ac yn wyres i Mrs Morfydd Smith – teulu oedd yn aelodau yng Nghapel Salem, Eryrys.

[CN8]

## Y GYMDEITHAS

Cawsom noson ddiddorol yn y Gymdeithas yng nghwmni **Mrs Ceinwen Parry**. Bu'n sôn am ei magwraeth yn nhŷ capel Ebeneser a rhannodd atgofion am bobl y fro oedd yn galw i mewn i'r tŷ a hefyd y gweinidogion a ddeuai i bregethu ar y Sul. Ym mis Awst bu **Mr a Mrs Raymond ac Ann Bryan** gyda ni yn sôn am eu diddordeb ym myd natur, yn enwedig adar. Ar ôl mwynhau'r ddau gyfarfod hyn yn fawr iawn, edrychwn ymlaen at groesawu **Mrs Lucy Williams** ar 2 Medi ac yna ddod ynghyd ar gyfer Te Prynhawn ar ddydd Sadwrn 5 Medi yn Hafan Deg.  Croeso cynnes i bawb – dewch i ymuno â ni yn y Gymdeithas.

## CYFARFOD PREGETHU A'R DIOLCHGARWCH

Edrychwn ymlaen at groesawu'r Parchedig Ddr Jennie Hurd i gynnal ein Cyfarfod Pregethu ar nos Sul Medi 13 am 6 yh. Ar nos Sul Hydref 11 am 6 yr hwyr, byddwn yn croesawu'r Parchedig Marc Morgan i ofalu am y gwasanaeth diolchgarwch. Croeso cynnes i bawb.

*Gohebydd – Maldwyn Roberts*

**Ebeneser, Caernarfon**

## ER COF AM HELEN JONES

Un o blant Ebeneser oedd Helen Jones, merch i Bob ac Eunice Pritchard. Ar ôl byw yn Pinner am dri deg wyth o flynyddoedd, ymddeolodd i Dinas ger Caernarfon ond bu farw yn fuan ar ôl dychwelyd yma, wedi dioddef cystudd blin. Daeth ffrindiau a chydweithwyr o Lundain a Chaernarfon i'r gwasanaeth angladdol yn Ebeneser a rhoddwyd teyrnged i Helen gan ei nith, Claudia. Cydymdeimlwn yn ddwys ag Emlyn,

priod Helen, Mathew ei mab, John a Gwynedd ei brodyr, Gwenllian ei modryb a'r teulu oll.

## CROESAWU'R AMERICANWYR

Cawsom gyfle yn ddiweddar i groesawu nifer o Americanwyr i'n plith. Roeddent ar fordaith o amgylch Ynysoedd Prydain ac, ar ôl glanio yng Nghaergybi, daethant i Gaernarfon a mwynhau croeso dinesig gan y Cynghorydd William Lloyd Davies, maer y dref. Yna daethant i weld rhai o'n hadeiladau hardd, yn eu plith Gapel Ebeneser. Cafodd yr ymwelwyr fraslun o hanes Ebeneser gan Branwen Edwards sydd â chysylltiad teuluol â phensaer yr adeilad sef John Lloyd. Paratowyd bwydlen Gymreig ar eu cyfer yn y Ganolfan a chafodd yr ymwelwyr flas hefyd ar glywed cyfraniadau cerddorol gan Morwenna Roberts, John Howard a June Aubrey, yn ogystal â chael cyfle i sgwrsio â phawb.

## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i'n gweinidog a'i briod Kate ar ddathlu eu priodas ddiemwnt ac yn ogystal ar enedigaeth gorwyres sef Hannah Grug.  Llongyfarchiadau i Mati Jones sydd yn hen nain unwaith yn rhagor. Llongyfarchiadau mawr i Osian Hughes, ŵyr Ronnie a Gwenda Hughes, ar ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth canu gwerin i rai 8-12 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod.

Llongyfarchwn hefyd y bobl ifanc sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau yr haf hwn: Siôn Trewyn, sydd yn mynd ymlaen i Brifysgol Sheffield; ac Owain Houghton, ŵyr Medi Hill, sydd yn cychwyn yng Ngholeg Queens, Caergrawnt. Llongyfarchiadau i Cadi, merch Dewi Rhys, ar ei llwyddiant yn yr arholiadau TGAU, a llongyfarchiadau hefyd i Dafydd Trewyn, Awen Mai, Elain a Ffion a Gwion, wyrion a wyresau i rai o'n haelodau. Mae Bethan, gor-nith Glenys Williams, i'w llongyfarch yn arbennig iawn oherwydd bu'n rhaid iddi wynebu llawdriniaeth fawr yr haf yma, a llwyddo yn y TGAU er gwaethaf hynny.

## GWELLHAD BUAN

Pob dymuniad da am wellhad llwyr a buan i Glenys Williams yn dilyn damwain; hefyd i Aelwen Morris ac i Hannah Williams. Meddyliwn yn arbennig am Gwern Owain sy'n wynebu triniaeth yn Lerpwl.

*Gohebydd – Branwen L. Edwards*

**Ardal Bathafarn**

**SUL Y BEIBL**

Ar Sul cyntaf mis Gorffennaf daeth eglwysi tref Rhuthun ynghyd i gynnal gwasanaeth yn seiliedig ar thema Sul y Beibl. Cafwyd anerchiad gan y Parchedig Martin Evans-Jones, yn sôn am faterion cyfoes. Roedd naws gyfoes i'r addoliad hefyd pan gawsom gyfraniad gan Fand Jig-so. Dyma gyfle i feddwl am Thema Synod Cymru eleni sef Addoliad. Diolch i Elizabeth, Dafydd, Rhian a Meta am eu cymorth.

**CYDYMDEIMLO**

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Rob ac Edwina a gollodd fam, mam yng nghyfraith a nain annwyl yn 102 oed.

**DYMUNIADAU GORAU**

Dymunwn wellhad buan i Gretta Davies.


**EISTEDDFOD MEIFOD**

Bu'n Eisteddfod i'w chofio, a mwynder Maldwyn ar ei orau. Braf oedd gweld pawb gyda'i gilydd unwaith eto yn rhannu Pabell Cytûn.

**LLONGYFARCHIADAU**

Ymddangosodd Morgan, mab Clwyd ac Eleri, Gwyddelwern, ar raglen deledu yn ddiweddar. Pob hwyl i ti, Morgan, i'r dyfodol.

*Gohebydd – Elizabeth Jones*




Mae'r Hud yn Saff

gan Karen Wynne

(Stori am Karen

a'i thad y diweddar Barchedig Raymond Hughes)

Roedd Dad wedi bod yn fy nysgu i am harddwch bywyd ac am hud a lledrith ers imi fod yn ddim o beth. Dysgodd imi sut i werthfawrogi 'lliwiau' bywyd a hefyd sut i roi lliw mewn bywyd pan fo pethau'n teimlo'n llwm. Cawsom y syniad o gyfuno pethau sy'n bwysig inni mewn llyfr stori a lliwio i blant. Gan fod arlunio a phaentio mor bwysig i Dad, pa well ffordd o roi cyfle i'r plant ei hawlio fel eu llyfr eu hunain na'u hannog nhw i'w liwio?

Diolch yn fawr iawn i Wasg y Bwthyn am eu gwaith; drwy eu dycnwch dwi'n falch o ddweud bod Dad wedi cael agor cloriau ein llyfr gyda balchder. Gofynnodd rhywun iddo pryd y gorffennodd y lluniau. "In the nick of time!" atebodd yntau. Yn wir, cafodd bleser o ddechrau lliwio un o'r llyfrau yn yr hosbis. Un o'i ddymuniadau olaf oedd imi ddarllen y stori iddo. Wrth imi ddarllen y darn: 'Mae'r hud ym mhobman o'n cwmpas ni. Mae o'n rhan ohonom ni ac mae'n cael ei gadw'n saff yn y fan hon', dyna Dad, er yn wan iawn erbyn hyn, yn rhoi ei law ar ei galon. Dwi'n gwybod fod yr hud yn saff ac yn gobeithio y caiff y sawl sy'n darllen ein llyfr yr un cysur. Diolch i Nana (mam Dad) am dalu am gyhoeddi'r llyfr. Oherwydd ei haelioni, mae pob ceiniog o'r gwerthiant yn mynd i'r Severn Hospice.



Merched Methodistaidd yng Nghymru

Cyfarfod yr Hydref

# Hydref 10fed

## 2:30 p.m

## Capel Seilo Llandudno

**Yr Athro**

**Mari Lloyd**

**Williams**

Yn sôn am sefydlu a chynnal y darpariaeth Gofal Dydd yng nghapel y Waen.

*Trefnir lluniaeth ysgafn wedi'r cyfarfod*

Er mwyn cynnal darpariaeth **gofal dydd Capel y Waen i bobl fregus** yn ein cymdeithas, sef testun sgwrs yr Athro Mari Lloyd Williams ar 10 Hydref, mae angen i'r gwirfoddolwyr yno godi dros £10,000 y flwyddyn. Cynhelir Ffair Aeaf i godi arian a **gofynnir yn garedig i ni gyfrannu** nwyddau e.e. anrhegion a gawsom na wnaethom ddefnydd ohonynt, fel nwyddau ystafell ymolchi, tlysau ac addurniadau Nadolig ayb. Dewch â nhw i'r cyfarfod neu rhowch nhw i rywun sy'n mynd.



**RHAGHYSBYSIAD**

MAE'R *GWYLIEDYDD* AM GAEL PARTI! GWAHODDIAD I BAWB!

Dydd Sadwrn, Ebrill 9fed, 2016

12-00 o'r gloch tan 4-00, yng Nghanolfan Ebeneser, Caernarfon.

Diwrnod Agored i ddathlu **200fed rhifyn Cyfres Newydd y *Gwyliedydd*.**

Cyfle i gyfarfod cyfranwyr hen a newydd a chyfle arbennig i blant gael stori neu ddwy gan Angharad Tomos ac i weld triciau anhygoel gan Karen Wynne. **NODWCH Y DYDDIAD!**

NODWCH HEFYD DDYDDIAD **PERERINDOD FLYNYDDOL CYMDEITHAS HANES YR EGLWYS FETHODISTAIDD** SEF **DYDD SADWRN MAI 21 2016**

Methodistiaeth yng Ngheredigion fydd y thema eleni. Cawn gyfarfod yng Nghapel St Paul yn Aberystwyth cyn mynd ymlaen i ymweld â chapeli Ystumtuen a Cnwch Coch a chael hanes yr achos yn yr eglwysi hynny. Fel arfer, bydd pryd blasus o fwyd wedi ei drefnu ar ddiwedd y dydd. Cewch y manylion llawn yn rhifyn nesaf y *Gwyliedydd*.

## Y Parchedig Raymond Hughes (1942-2015)

**[LLUN TUDALEN 9]**

Ganwyd Raymond ar 1af o Hydref 1942 yn 4 Glanyrafon, Cwm Penmachno, yn fab i Elwyn a Margaret Ann (Nansi) Hughes. Roedd Raymond yn un o efeilliaid ond bu farw ei efaill ar ei enedigaeth. Pentref a ddatblygodd gyda gwaith y chwareli yw Cwm Penmachno a chwarelwr wrth ei alwedigaeth oedd tad Raymond; bu'n gweithio yn Chwarel Rhiwbach. Roedd Elwyn Hughes yn enedigol o Benmachno a Nansi o Garreg Lleon, Capel Garmon.

Pan oedd Raymond yn ifanc iawn symudodd y teulu i'r stryd nesaf, i 6 Machno Terrace. Cofiaf i Raymond ddisgrifio'r olygfa o'r creigiau a welai drwy ffenestr ei gartref. Yma y mae Afon Machno, sy'n llifo i Afon Conwy, yn tarddu. Mynychodd Raymond Ysgol y Cwm, lle bu'n gyd-ddisgybl â Robin [cyd-olygydd y *Gwyliedydd*]. Un atgof sydd gan Robin am Raymond yw iddo holi sawl lliw yr oedd Robin yn ei weld wrth edrych ar yr olygfa o fuarth yr ysgol. 'Coch, glas, gwyrdd...' cynigiodd Robin. 'Ia, ond faint o liwiau gwyrdd wyt ti'n eu gweld?' oedd sylw Raymond. Ac yntau'n blentyn ifanc, fe welai'r gwahaniaethau sydd o fewn un lliw, gan ddeall pa fath amrywiaeth sydd – fel yn wir sydd mewn bywyd.

Ac yntau ar fin mynd i'r Ysgol Uwchradd symudodd Raymond gyda'i rieni i Dŷ Capel y Tabernacl yng Nghonwy. Bu'n ddisgybl yn Ysgol John Bright, Llandudno, ac yno, yn y chweched dosbarth, y daeth yn ffrindiau mawr â Gareth, sef yn awr y Parchedig Gareth Edwards - y ddau yn astudio Ysgrythur ar gyfer Lefel A ac yn gyd-swyddogion yn y chweched. Cofia Gareth pa mor dda oedd Raymond gyda'r plant iau, yn boblogaidd yn eu mysg ac yn eu diddanu. Roedd y ddau gyfaill yn meddwl am y llwybr fyddai'n arwain i'r weinidogaeth, Gareth gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru a Raymond gyda'r Eglwys Fethodistaidd. Aeth Raymond ymlaen i Goleg Handsworth, Birmingham ac yno bu'n gyd-efrydydd â'r diweddar Barchedig Alec Jones. Fe dreuliodd Alec a'i briod Dilys flynyddoedd yn y maes cenhadol yn Ghana. Erbyn heddiw mae'r Parchedig Dilys Jones hithau yn weinidog ar Eglwys Tabernacl, Yr Amwythig. Raymond a weinyddodd yn eu priodas cyn iddynt fynd allan i Ghana.

Wedi iddo fod yn weinidog ar brawf ym Mangor, daeth Raymond i Faldwyn, i Gaersws, cyn gwasanaethu wedyn ym Mhenmachno, yn agos at ei wreiddiau, ac yna yn Rhyd-y-foel ger Abergele. Daeth i Ddyffryn Tanat yn 1977. Wedi cyrraedd Cylchdaith Llanrhaeadr ymgymerodd â gofalu am Seion; Hermon, Briw; Moreia, Cymdu; Tabernacl, Llanarmon;

Carmel, Llangynog; Pen Nebo, Penybontfawr; Llynclys ac eraill. Pan symudodd y Parchg W. O.Thomas o Groesoswallt fe syrthiodd cyfrifoldeb Arolygwr Cylchdaith Llanrhaeadr ar Raymond. Yna yn 1989 sefydlwyd Gweinidogaeth Bro Dyffryn Tanat a dyma ychwaneg o gyfrifoldebau yn dod i'w ran oherwydd bellach fe wasanaethai eglwysi o dri enwad ac o bedwar dyffryn sef Tanat, Cain ac Efyrnwy a rhan o Ddyffryn Ceiriog. Yn wir, Archesgob answyddogol Dyffryn Tanat a'r cyffiniau!

Diddorol meddwl am un arall a ddaeth o blwyf Penmachno i Lanrhaeadr, bedwar can mlynedd ynghynt, sef yr Esgob William Morgan. Ganed William Morgan ryw bum milltir o Gwm Penmachno, yn y Wybrnant, ac yn ystod yr amser y bu'n ficer Llanrhaeadr y cyfieithodd y Beibl i'r Gymraeg. Yn ddiau fe wnaeth Raymond yntau drosi geiriau Beibl Cymraeg yr Esgob yn weithredoedd wrth wasanaethu ei Arglwydd mor dawel a diymhongar. Fe gyffyrddodd Raymond â llawer iawn o deuluoedd yn ystod ei weinidogaeth, gan gysuro llawer ar adegau anodd a chyd-lawenhau ar adegau hapus.

Yn 1986 fe briodwyd Raymond a Susan a bu Susan yn gefn mawr i'w gŵr yn ei weinidogaeth. Roedd yn bresennol gydag ef yn y gwasanaethau, boed gartref yn Llanrhaeadr neu pan fyddai Raymond yn crwydro'r wlad yn pregethu, fel John Wesley gynt. Bu Karen, ei unig ferch, yn gannwyll ei lygaid ac yn gwmni mawr iddo oherwydd fe rannent yr un diddordebau, yn arbennig felly ym myd diddanu a chonsurio. Mae dawn y tad a'r ferch i'w gweld yn y gyfrol fechan sydd newydd ei chyhoeddi sef "Kariad". Fe gollodd Raymond ei dad yn 1980 a bu'n ofalus iawn o'i fam gan ymweld â hi yn gyson, yn wir yn wythnosol. Mae Karen, gyda'i phriod Rhys, yr un mor ofalus a chefnogol i'w nain yng Nghonwy.

Mae ystod gweithgarwch Raymond dros y blynyddoedd yn anfesuradwy. Gwaith artistig gyda Ffermwyr Ifanc Dyffryn Tanat yn llunio setiau ar gyfer eu gwahanol weithgareddau a gwaith cyffelyb hefyd i Theatr Tanat a charnifal blynyddol Llanrhaeadr. Bu'n aelod o Bwyllgor Llên Eisteddfod Gadeiriol Llanrhaeadr ym Mochnant ac yn cadeirio'r pwyllgor hwnnw. Bu'n aelod o Gwmni Drama Llanrhaeadr ym Mochnant ac am lawer blwyddyn yn llywydd Cymdeithas Gymraeg Llanfyllin. Fel Gweinidog Bro bu'n Llywydd Cyfundeb Maldwyn yn 1996/7, ac yn ei dro yn Llywydd Henaduriaeth Trefaldwyn Isaf. Roedd Raymond yn cydweithio'n hapus â gweinidogion a chlerigwyr o bob enwad a bu'n ysgrifennydd a threfnydd Brawdoliaeth gweinidogion a lleygwyr Maldwyn. Un o aelodau'r Frawdoliaeth hon, y Parchg D. Gerald Jones, a ddisgrifiodd Raymond yn yr englyn hwn:

Gwas hudol i'w siwt olau – a'i bregeth
yn brigo'n ddarluniau,
Ac i'w wedd roedd hedd i hau
Yn dirion i'n dyfnderau.

Yn sicr roedd ei bregethau yn llawn o ddarluniau byw. Roedd Raymond hefyd yn arlunydd dawnus dros ben ac mae enghreifftiau o'i waith cywrain i'w gweld yn hongian ar lawer i wal yn y fro hon. Roedd Raymond yn gallu ymlacio wrth arlunio ac roedd yna ryw berffeithrwydd yn ei waith fel yn ei waith yn y weinidogaeth.

Fe gefais i yn bersonol bob cefnogaeth gan fy rhagflaenydd ar hyd y naw mlynedd diwethaf hyn. Byddai gan Raymond bob amser ryw air cadarnhaol i'w rannu. Gyda'r anhwylder iechyd a ddaeth i'w ran, roedd yn gryf yn ei ffydd ac yn werthfawrogol o bob cymorth a chysur a gafodd gan Susan, Karen a Rhys, a'i fam Mrs Nansi Hughes a oedd mor falch o'i mab dawnus. Cydymdeimlwn ninnau'n ddwys â hwy. Mae'r teulu'n fawr eu gwerthfawrogiad o'r holl gymorth a gawsant gan y gwasanaethau meddygol a lliniarol a llawer o ffrindiau. Coffa da am y Parchedig Raymond Hughes.

*Y Parchedig J. Gwyndaf Richards*

Mab y Mans

gan Richard Elfyn Jones (cerddor ac organydd dawnus a mab i'r diweddar Barchg. a Mrs Gwyn Jones)

Mae'n bleser cael dweud ychydig o'm hanes yng nghyd-destun ffaith syml amdanaf, sef i mi gael fy ngeni'n fab i weinidog Wesle. Dyma ychydig o atgofion anffurfiol sy'n deillio o'm magwraeth hapus fel mab y Mans mewn sawl gwahanol leoliad yng Ngogledd Cymru. I ddechrau, nodaf fy mod wedi byw yn fy nhŷ presennol yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd, am dros ddeng mlynedd ar hugain, a phe bai rhywun yn fy ngorchymyn i symud allan ymhen y mis a chwilio am gartref newydd byddai fy ngwraig, wrth gwrs, yn cael arswyd. Ond ni fyddai'n broblem o gwbl i mi. Dyna'r effaith seicolegol a gafodd yr arferiad diddorol (ond od) ymhlith y Wesleaid o symud eu gweinidogion o gwmpas y wlad arnaf. Newid bro yn rheolaidd bob 5 mlynedd oedd y drefn; cyn yr Ail Ryfel Byd digwyddai bob tair blynedd. Byddai pob gweinidog yn symud ar yr un diwrnod o fro i fro, o gartref i gartref, o eglwys i eglwys. Cofiaf ni fel teulu yn teithio yn y Morris Minor bach o Dregarth i Hen Golwyn yn 1960. Roedd fy nhad, y Parch J. Gwyn Jones, wedi cael gwahoddiad am yr ail dro i weinidogaethu yng Ngholwyn. Buom yn byw yno ynghynt o 1945 i 1950. Ar y daith o Dregarth i Golwyn, a ninnau'n dilyn ein fan Pickfords enfawr, cofiaf fod fan Pickfords arall yn dod i'n cyfarfod ger Penmaenmawr a Mam yn dweud, 'Wel mae'n siŵr mai fan Tilsli yw honna ar ei ffordd o'r Rhyl i Gaernarfon.'

Ond mae'n siŵr bod sawl teulu, a'r plant Wesleaidd yn enwedig, wedi profi ton o dristwch wrth orfod tynnu i fyny wreiddiau oherwydd yr holl fudo rheolaidd. Gwn fod fy chwaer Elan flynyddoedd ynghynt wedi hiraethu'n arw pan fu'n rhaid symud o Flaenau Ffestioniog i Golwyn y tro cyntaf (1945), a gwn fod fy mrawd Dilwyn, pan ymaelododd yn yr 'Old Colwyn Primary School' Seisnigaidd yn 1945, wedi gorfod cymdeithasu a gwarchod ei hun mewn iaith estron ar yr iard chwarae am rai wythnosau. Ni theimlais fy hun gymaint â hynny o wewyr bum mlynedd yn ddiweddarach pan symudwyd o Golwyn i Fangor, a oedd bron mor Seisnigaidd â Cholwyn. Nid oedd llawer o Gymraeg yn Ysgol Caetop, Bangor Uchaf nac ymhlith fy ffrindiau. Ffrwyth yr holl symud oedd magu perthynas gyda llawer man gwahanol. Gwnaethpwyd llawer o gyfeillion hefyd.

Fel pob plentyn y mans roedd yn rhaid byhafio a mynychu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau a'r cyfarfodydd ganol wythnos. Ar y cyfan, nid oedd cwyn gennyf am hyn, ac eithrio pan

gynhaliwyd Cymanfa'r Plant ar ddydd Sadwrn y Cup Final a minnau ar y pryd yn fy arddegau cynnar, yng nghyfnod Tregarth, ac yn danbaid f'angerdd dros y bêl gron ac am wylio'r gêm ar un o'r ychydig setiau teledu oedd yn y pentref. Ni fyddwn byth yn ennill ar adrodd a chanu yng nghystadlaethau'r Gymanfa Plant yng Nghylchdaith Tregarth am y rheswm syml fod perfformiwr gwych wastad yn cystadlu yn fy erbyn, fy ffrind John Sling, neu, erbyn hyn, John Ogwen. Roedd ef yn ganwr da iawn yn ogystal â bod yn adroddwr (ac yn beldroediwr gwych hefyd).

Mae gan yr Iddewon arfer pwerus sy'n gysylltiedig â throsglwyddo breintiau a bendithion ac addysg o un genehedlaeth i'r nesaf, sef arddodiad dwylo. Teimlaf fod effaith debyg i hyn yn bodoli yn y traddodiad Cymraeg a Chymreig ac yn aml yn dwyn ffrwyth er lles yr ieuenctid. Rhan o'r traddodiad y cefais brofiad ohono oedd gwrando ar gannoedd o bregethau: rhai lled dda, rhai diddorol, rhai sâl, rhai sych, rhai anghyffredin, rhai dagreuol, rhai dramatig, a, diolch i'r drefn, rhai cyfareddol o wych. Os byddai Richard Jones, prifathro yn Neiniolen yn pregethu, byddai'n brofiad eithriadol o anghyffredin a doniol iawn oherwydd bod y gynulleidfa yn methu â stopio chwerthin ar ei smaldod. Ond roedd neges amserol ac adeiladol ganddo bob amser. Yn gyffredinol, waeth beth fo ansawdd y pregethu, roedd Cymraeg graenus i'w glywed o'r pulpud. Efallai na ddisgwylid i blentyn 11 mlwydd oed fod yn wrandawr eiddgar ar gewri'r pulpud, ond sôn rwyf am dywysogion y Wesleaid nad oes mo'u tebyg, debygaf i, y dyddiau hyn, rhai fel y Parchedigion D Tecwyn Evans, John Roger Jones a Tegla Davies a llawer un arall. Hefyd, fe'm llusgwyd ar draws gwlad, ond nid yn anfoddog chwaith, i wrando ar bregethwyr enwog a charismataidd Seisnig o dro i dro - Soper a Sangster a Weatherhead.

Ymhlith y Cymry ni fyddai 'John Roger' yn gwneud unrhyw gonsesiwn i rai fel fi oedd heb y crebwyll a'r ddealltwriaeth o'r seiliau athronyddol a diwinyddol a ymdreiddiai drwy'i bregethau. Pregethau trwm oeddynt ond anaml iawn y byddai fy meddwl yn crwydro. Ac nid pregethau chwarter awr chwaith: o reidrwydd disgwyliem hanner awr. Ac yng Nghyfarfodydd Pregethu Tregarth ceid yn aml ddau bregethwr a dwy bregeth, felly gwasanaeth yn para o leiaf awr a hanner. Byddai Roger Jones wastad yn aros dwy noson gyda ni ym Mhant Teg gan nad oedd car ganddo. Edrychai fel proffwyd o'r Hen Destament ac roedd arnaf ei ofn braidd, ond roedd sgwrs ddifyr ganddo yn enwedig am ei flynyddoedd yn Lerpwl lle (er mawr syndod i bawb) roedd coel amdano fel cefnogwr brwd i Everton. Arddull gwahanol oedd gan Tegla Davies, a fyddai'n ymweld â'i hoff bentref, sef Tregarth, ac yn taro i mewn i ymweld â ni yn lled aml. Ym mhulpud Shiloh traethai mewn dull sgyrsiol hynod o grefftus a llenyddol a theimladwy. Mae'n ddiddorol nodi nad oedd yr un o'r ddau bregethwr mawr hyn yn 'mynd i hwyl'. Doedd dim angen hynny oherwydd miniogrwydd eu dadansoddiadau a nerth eu neges. Cyfeiriaf atynt oherwydd cymaint o ddylanwad crefyddol, diwylliannol a seicolegol y gallai pregethu trawiadol, gwefreiddiol yn wir, ei gael ar wrandawyr mor annhebygol â mi a'm cyfoedion, yn blant 11 oed. Mae'n amlwg nad oedd angen y 'dumbing down' bondigrybwyll yr adeg honno.

Profiad arall pwysig i fab gweinidog a ddangosai ddiddordeb mewn cerddoriaeth oedd, yn naturiol, caniadaeth y cysegr. Treuliais sawl blwyddyn bellach fel darlithydd prifysgol mewn cerddoriaeth ac yn ystod fy mlynyddoedd cynharaf ym Mhrifysgol Caerdydd bûm yn canu'r organ yn broffesiynol. Rhoddais ddegau o ddatganiadau, llawer ohonynt ar Radio 3. Yn sicr, bu'n daith hir a llafurus i mi o organ bibau Capel Shiloh Tregarth i leoedd tebyg i gapeli

Coleg y Brenin a Sant Ioan, Caergrawnt, y Mil o Leisiau yn Neuadd Albert ac yn y blaen. Ond flynyddoedd ynghynt, ar ddechrau'r daith, roedd rhaid i mi ddysgu mwy neu lai ar fy liwt fy hun sut i ddarllen cerddoriaeth. Gwneuthum hyn yn ddeuddeg oed trwy geisio chwarae, heb gyfarwyddyd, bob tôn yn Llyfr Emynau'r Methodistiaid Calfinaidd a Wesleaidd. Yn f'anwybodaeth o ddirgelion hen nodiant, cofiaf y boen o weld rhai tonau gyda mwy na dau 'flat' a 'sharp'. Roedd hi'n lletchwith gorfod wynebu'r ychydig donau mwy cymhleth oedd â 4 llonnod neu 4 meddalnod! Er mwyn datrys y broblem rhaid oedd wrth wersi ffurfiol. Felly, un o'r pethau gorau ddigwyddodd i mi erioed oedd i'm rhieni f'anfon am wersi at Dr Leslie Paul, organydd nodedig Eglwys Gadeiriol Bangor, iddo fy rhoi ar ben y ffordd.

Bu cymorth Dr Paul yn ysgogiad i mi i ddatblygu fel cyfansoddwr lawer blwyddyn ar ôl hyn. Yn naturiol, fel organydd, rhoddais fri mawr ar gerddoriaeth J.S.Bach. Bu Bach yn sylfaenol i'm gyrfa fel cerddor. Cofiaf hefyd fod clywed darnau organ gorwych y cyfansoddwr Ffrengig meistraidd Olivier Messiaen ym Mangor yn y pumdegau wedi creu argraff ddofn iawn arnaf. Flynyddoedd wedyn, deallais fod fy mhrif athro cyfansoddi, William Mathias, hefyd wedi cael ei ddylanwadu gan Messiaen a chan ffigyrau pwysig eraill fel Benjamin Britten a Michael Tippett. Un o'r profiadau ffurfiannol a gefais oedd cael Tippett, oedd yn bolymath mawr, i'm cynghori a'm cefnogi pan ysgrifennais draethawd PhD ar ei operâu; ond yr hyn sy'n aros yn fy nghof o'r amryw gyfarfodydd a gawsom yw ei sgwrsio treiddgar – er syndod i mi - am y Mabinogi, am nodweddion yr iaith Gymraeg ac am hanes ymneilltuaeth yng Nghymru!

I aros gyda'r organ: yn 1963 pan oeddwn yn fyfyriwr ym Mangor cefais yr anrhydedd o helpu Dr Paul fel dirprwy iddo yn yr Egwys Gadeiriol, a hynny oherwydd nad oedd awydd ganddo i gyfeilio i'r Gosber yn y Gymraeg ar nos Sul. Fi oedd yr organydd rheolaidd i'r amgylchiad diddorol hwn ac roedd cael ymgyfarwyddo â threfn y gwasanaeth Anglicanaidd, yn ei holl gymhlethdod, yn brofiad difyr i mi. Rhyw 10 i 12 o gynulleidfa fyddai yno ar noson wlyb yn Ionawr, a phawb yn anweledig i mi yn fy nghaban pell lle roedd 'console' yr organ. Ni effeithiodd diffyg hyder y deuddeg wrth ganu'r emynau ar fy mrwdfrydedd (gorfrwdfrydedd yn wir), wrth gyfeilio. Un tro daeth yr academydd blaengar Miss Enid Pierce Roberts ataf ar ôl y gwasanaeth a diolch i mi am fy nghyfraniad ond gan nodi bod fy nghyfeiliant 'braidd yn gryf a tharanllyd i'r ddiadell fechan sydd yma heno.' Sylweddolais fod cael pedair allweddell a 124 o stopiau at fy ngwasanaeth wedi fy hudo i fwynhau fy hun gormod, ac felly gan Dr Enid P. fe ddysgais wers fuddiol nad anghofiais, am sut y dylwn gyfeilio'n synhwyrol.

O safbwynt caniadaeth y cysegr a'm profiadau cyntaf ohono rhaid cyfaddef mai'r tonau mawr traddodiadol oedd (ac sydd) fwyaf agos at fy nghalon. Moab a Liverpool, Tyddyn Llwyn, Pennant a Sirioldeb âi â'm bryd. Nid yw caneuon efengylaidd ('happy clappy' yw disgrifiad dirmygus y Sais ohonynt) o lawer o ddiddordeb i mi. Yn gyffredinol (tu allan i addoldy) does dim gwrthwynebiad gennyf i esiamplau da o gerddoriaeth pop neu jas ond ni welaf fod rhaid iddynt wthio i mewn yn ormodol i wasanaethau crefyddol ac, o'r herwydd, lastwreiddio arferion hanesyddol ein crefydd - arferion hen ac angerddol fu mor gynhenid i'n treftadaeth grefyddol drwy'r oesau ac sydd wedi llwyddo i roi naws gyfriniol i'n gwasanaethau. Diau na fydd pawb yn cytuno â mi ond hoffwn feddwl nad snobeiddiwch yw hyn ar fy rhan. Gwn mai pwnc sensitif yw hwn ac nid oes gofod i ymhelaethu arno yma. Felly, gwell yw i mi gloi gan ddiolch i'r Golygyddion am gynnig y cyfle i rannu profiadau difyr mab y Mans gyda chwi oll.

Annwyl Olygyddion

**Cydaddoliad: beth am y dyfodol?**

Mae'r gymuned Gristnogol yng Nghymru heddiw yn ymdrechu'n galed i gyfleu hanfod y ffydd i genhedlaeth newydd; i ymateb i angen ein cymdeithas; i warchod ein treftadaeth Gristnogol – a chynnal adeiladwaith ein haddoldai, wrth gwrs.

Ond pa mor berthnasol yw parhau i gynnal yr addoliad yn ôl yr un drefn, ar yr un awr benodedig, mewn lle penodedig, yn yr oes hon pan yw'r wythnos waith, waeth inni ddweud, yn 24/7, cyswllt cymdeithasol yn digwydd yn bennaf drwy gyfrwng technoleg ac angenrheidiau bywyd i'w cael drwy glic llygoden?

Onid yw'n bryd inni ystyried o ddifrif pa ffurf fydd i gydaddoliad yn y dyfodol, a sut orau y gallwn ddiwallu anghenion yr oes sydd ohoni? Rhaid inni droi ein golygon i'r dyfodol a meddwl beth sydd am fod fwyaf perthnasol.

Yn gywir iawn

Lilian Williams

## DIOLCHGARWCH

### gan y Parchedig Martin Evans-Jones

### "Yna adeiladodd Noa allor i'r Arglwydd a chymryd rhai o bob math o'r anifeiliaid glân ac o'r adar glân, ac offrymu poethoffrymau ar yr allor." (Genesis 8:20).

Yn ei erthygl yn rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd* fe ddywedodd Dafydd Iwan nad oedd yn "teimlo'n gyfforddus gyda'r syniad o 'addoli'". Y rheswm a roddodd oedd "fod 'addoli' yn awgrymu plygu o flaen delw ac y mae gormod o hynny yn digwydd yn ein byd ni heddiw". Mae'r pwyslais yn ei erthygl ar "y gwaith o ddilyn Crist". Ond er pwysiced y gwaith hwnnw, yr hyn sy'n hollbwysig i ni fel Cristnogion yw cofio ein dibyniaeth lwyr ar ras gwaredol Duw. Oherwydd dyna yw addoliad yn y pen draw, a hebddo ni allwn fyw.

Y peth mwyaf trawiadol am yr ymfudwyr dewr yn Calais, a hwythau wedi dianc o hunllef y rhyfela yn Syria ac Eritrea, oedd iddynt yn gyntaf oll adeiladu eglwys er mwyn diolch i Dduw am eu gwaredu ac er mwyn ei addoli Ef fel awdur eu bywydau.

Dyma'r reddf sylfaenol a welwn yn stori'r dilyw yn llyfr Genesis, pan gafodd yr un gŵr cyfiawn, Noa, a'i deulu, a chynrychiolaeth o'r holl anifeiliaid a'r planhigion, eu hachub rhag boddi o achos digofaint Duw tuag at ddrygioni dynolryw. Newidiodd Duw ei feddwl a rhoi ail gyfle i ddynolryw: diolch iddo am ei ras. Y peth cyntaf a wnaeth Noa, pan laniodd ar dir sych, oedd mynd ar ei liniau mewn addoliad a diolchgarwch am i Dduw arbed ei fywyd. Iddo ef a'i dylwyth, y ffordd o wneud hynny oedd adeiladu allor, cymryd o'r gorau o'i anifeiliaid a'r adar, a'u hoffrymu i Dduw. Ac meddai'r awdur, "A phan glywodd yr Arglwydd yr arogl hyfryd, dywedodd yr Arglwydd ynddo'i hun, 'Ni felltithiaf y ddaear mwyach o achos dyn, er bod gogwydd ei feddwl yn ddrwg o'i ieuenctid; ni ddifethaf eto bopeth byw fel y gwneuthum'".

Dyna pam rydym ninnau'n dal i addoli heddiw. Er maint ein tueddiad parhaus i ddrygioni, rhown ddiolch am ofal a gras Duw. Dyna'r rheswm y cynhaliwn wasanaethau o ddiolchgarwch ar ôl cael y cynhaeaf i mewn bob blwyddyn, sef ein bod yn cydnabod ein dibyniaeth hollol ar Dduw am ein cynhaliaeth ac yn addo gwarchod a pharchu'r greadigaeth fregus a roddodd Ef i'n gofal.

Y rhan fwyaf o'r amser rydym yn byw yn arwynebol - wedi'n llyncu i fyny gan ddyletswyddau rhigolaidd bywyd o ddydd i ddydd, ac anaml y byddwn yn ystyried uchelderau a dyfnderau bywyd. Ond yna pan fydd rhyw ddaeargryn neu argyfwng yn digwydd - fel colli rhywun agos neu berthynas yn torri i lawr, neu siom neu salwch, profiad o lawenydd neu chwilfrydedd ynglŷn ag ystyr bywyd - yna syrthiwn drwy'r wyneb a sylweddolwn fod yna ddyfnder di-ben-draw i fywyd. Ac yn y dyfnder hwnnw y down o hyd i'r Duw rhyfeddol sydd â'n bywyd yn ei ddwylo, ac sy'n ein caru yn fwy na chariad mam. Dyna sydd yn ein gyrru ar ein gliniau i addoli.

**CROESAWU PAWB YN SALEM**

Yn Rhyd y Foel ar ddydd Sul Gorffennaf 19eg, agorwyd nifer o erddi'r pentref i'r cyhoedd, trwy gydweithrediad â mudiad y Groes Goch. Penderfynwyd agor drysau Salem a rhoddwyd cyfle i unrhyw un oedd â diddordeb addurno ffenestr. Cafwyd ymateb rhagorol ac roedd y capel yn edrych yn hyfryd ac arogl y blodau yn hudolus. Daeth dros 200 o ymwelwyr - rhai i eistedd yn dawel, eraill i sgwrsio, rhai yn byw yn y pentref ond heb fentro i mewn i'r capel o'r blaen. Roedd arddangosfa o hen luniau yn y festri a'r plant a fu'n ymweld yn rhyfeddu mai'r festri oedd lleoliad ysgol y pentref flynyddoedd yn ôl. Cafwyd diwrnod bendithiol dros ben a chwmni cyfeillion hen a newydd o bell ac agos.









Diolchwch i'r Arglwydd oherwydd da yw
(Salm 106:1)

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CH | W | R | A | G | CH | L | O | I | D |
| DD | R | W | B | F | A | C | F | C | E |
| S | A | F | A | F | B | W | R | A | G |
| W | L | I | A | D | P | I | N | A | S |
| T | G | R | A | W | N | W | I | N | A |
| A | L | A | F | A | N | I | P | A | B |
| T | O | M | A | T | O | M | A | T | B |
| T | T | C | DD | R | I | A | D | A | C |

Chwiliwch y chwilair i gael hyd i: DIOLCHGARWCH,

BASGED, CADAIR, BWRDD, DAIL, AFAL, GRAWNWIN, PINAFAL, TOMATO, TATWS

Beth yw'r 6 gwahaniaeth rhwng y ddau lun yma?



